



YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN-Y-MÔR

Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham

Mewn undod mae nerth /Stronger together

30.04.21

Annwyl Riant / Gofalwr

Rydym wedi cyrraedd diwedd 3ydd wythnos gyntaf tymor yr haf. Rydym yn ffodus na fu unrhyw achosion covid yn yr ysgol ond bu achosion mewn ysgolion eraill ble bu rhaid i swigod hunan-ynysu. Gadewch i ni i gyd barhau i weithio gyda'n gilydd i sicrhau ein bod yn rhoi iechyd a lles cymuned yr ysgol yn flaenoriaeth.

A gaf i atgoffa rhieni na ddylech anfon eich plentyn i'r ysgol os oes gan eich plentyn neu unrhyw un ar yr aelwyd unrhyw un o'r symptomau canlynol:

- peswch newydd neu barhaus
- Tymheredd uchel
- Colli blas neu arogl

Rhowch wybod i'r ysgol ar unwaith os oes unrhyw un yn y cartref yn profi'n bositif am Covid 19.

Clwb Gofal

Bydd y Clwb Gofal yn ailagor ar Fai 4ydd. Er bod y Clwb Gofal yn cael ei redeg gan staff yr ysgol mae'n dal i fod yn fusnes preifat ac ar wahân i'r ysgol. Cafwyd ychydig o ymholiadau yn ddiweddar ynghylch rhieni ddim eisiau lleoedd i'w plant ddychwelyd yn syth ond efallai y bydd angen lle arnynt yn y dyfodol. Er ein bod yn deall bod amgylchiadau personol wedi newid i rai rhieni, yn anffodus, ni allwn gadw lle plentyn ar gyfer y dyfodol. Mae rhestr aros o ddisgyblion a rhieni sydd angen lleoedd. Felly, bydd angen i rieni hysbysu Mrs Caryl Morris i roi mis o rybudd os nad ydyn nhw'n dymuno cael lle i'w plentyn yn Clwb Gofal. Bydd y polisi codi tâl yn aros yn ei le. Ni all cyllideb yr ysgol dalu at unrhyw golled.

Amseroedd Bore Ysgol

Nawr ein bod ni i gyd wedi cael amser i ail gyfarwyddo wrth ddychwelyd i'r ysgol, hoffwn atgoffa rhieni bod yr ysgol yn dechrau **am 8.50am**. Mae hyn yn golygu bod athrawon yn dechrau eu diwrnod ysgol am 8.50am. Dylai eich plentyn fod yn y dosbarth erbyn yr amser hwn. Mae giât yr ysgol yn agor am 8.35am. Dylai rhieni / gofalwyr anelu i'w plant fod ar safle'r ysgol erbyn 8.45am fan bellaf, er mwyn caniatáu amser i ddisgyblion deithio i'r ystafell ddosbarth, golchi eu dwylo, rhoi eu bagiau gadw ac ati ac ymgartrefu yn yr ystafell ddosbarth. Bydd angen i unrhyw blentyn sy'n cyrraedd ar ôl 8.50am ddod at Brif ddrws yr Ysgol, lle bydd unrhyw ddisgyblion hwyr yn cael eu cofrestru gan staff y swyddfa.

HMS

Mae diwrnod HMS wedi'i gynllunio ar gyfer **dydd Llun, Mai 24ain 2021** felly bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion. Nid oes unrhyw ddiwrnodau HMS pellach wedi'u cynllunio ar gyfer gweddill y tymor.

Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP

E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk

Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk

Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1

Ffôn/ Tel: 01792 466354





YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN-Y-MÔR

Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham

Mewn undod mae nerth / Stronger together

Gofynnaf ichi i gyd fod yn amyneddgar gyda phob aelod o staff gan mai hwn yw'r tro cyntaf inni gynnal nosweithiau rhieni trwy Dimau MS. Fel rwy'n siŵr ein bod ni i gyd yn ymwybodol, weithiau mae gan gyfrifiaduron coblynnod annisgwyl yn eu systemau!

Cliciwch ar y ddolen isod i drefnu cyfarfod Rhiant / Athro:

<https://outlook.office365.com/owa/calendar/YsgolGGBrynyMor@hwbwave15.onmicrosoft.com/bookings/>

Newidiadau i'r System Addysg

Mae yna lawer o newidiadau yn digwydd ym myd addysg dros yr y blynyddoedd nesaf. Rydym yn diweddarau ein tudalen ysgol i geisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni am y newidiadau hyn. Mae rhai o'r newidiadau hyn yn cynnwys y cwricwlwm, cefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ac ACRh (Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb).

Ewch i'n gwefan i ddarganfod mwy.

<https://ysgol-gymraeg-bryn-y-mor.secure-primariesite.net/topic/about-us>

neu ewch i wefan y llywodraeth

<https://llyw.cymru/mae-addysg-yn-newid>

Mwynhewch benwythnos gŵyl y banc a chofiwch **nad oes ysgol ar ddydd Llun Mai 3ydd**.

Diolch am eich amynedd, eich caredigrwydd a'ch cydweithrediad.

Yn Gywir,

E. Wakeham

Elin Wakeham
Pennaeth

Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP

E-bost/ E-mail: ykk.brynymor@swansea-edunet.gov.uk

Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk

Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1

Ffôn/ Tel: 01792 466354

